Prifysgol Cymru, Casnewydd
Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008

CYNNWYS

	tudalen
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol	2-7
Rheolaeth Gorfforaethol	8-9
Cyfrifoldebau Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Casnewydd	10
Adroddiad Annibynnol yr Archwilwyr i Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Casnewydd	11-12
Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifydda	13-15
Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol	16
Datganiad Cyfunol o Wargedion Cost Hanesyddol	16
Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig Cyfunol	17
Mantolenni	18
Datganiad Llif Arian Cyfunol	19
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	20-38

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

1. Prifysgol Cymru, Casnewydd

Elusen addysgol wedi'i heithrio sydd wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain Cymru yw Prifysgol Cymru, Casnewydd. Ei chenhadaeth yw:

"Ysbrydoli a galluogi unigolion, sefydliadau a chymunedau i lwyddo trwy arloesedd mewn dysgu, ymchwil a mentergarwch o'r safon uchaf."

Daw'r rhan fwyaf o'i hincwm o addysgu a dysgu, ond mae hefyd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn darparu gwasanaethau eraill.

Mae ei dau brif gampws yn ardal Casnewydd, ond mae'n gweithredu hefyd o adeiladau yn Nhredegar a Glynebwy i'r gogledd o Gasnewydd, ac yn darparu rhai o'i chyrsiau drwy drefniadau ffranseis â phartneriaid yn y DU a thramor. Am resymau cyfreithiol a masnachol, caiff rhai o'i gweithgareddau eu sianelu drwy ei his-gwmni, Mentrau Prifysgol Cymru, Casnewydd Cyfyngedig.

Mae gan y Brifysgol draddodiad o ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch. Rhan-amser yw'r mwyafrif o'i myfyrwyr, ac maent hwy'n byw'n weddol agos at y Brifysgol. Er ei bod yn parhau'n ffyddlon i'w rôl fel Prifysgol Gymunedol, bu'r Brifysgol yn recriwtio mwy o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU ac o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Yn ystod 2007/08 bu'r Brifysgol yn ceisio newid diwylliant ymhlith ei staff, fel ei bod, heb golli golwg ar ei gwreiddiau, gwerthoedd craidd a rôl fel Prifysgol Gymunedol, yn fwy abl i gwrdd ag anghenion ei myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd sy'n gweddu i fyd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn crynhoi ein hymagwedd mewn datganiad newydd o'n gweledigaeth ble mae'r Brifysgol yn:

- Darparu profiad ardderchog i fyfyrwyr
- Gyfnewidfa gwybodaeth
- Fagned i fentergarwch
- Ffynhonnell o arbenigedd mewn dysgu ac addysgu
- Ganolfan o greadigedd
- Ysgogi newid cymdeithasol a chynhwysiant
- Ysgogi adfywiad
- Rym ar gyfer iechyd a daioni
- Ganolbwynt ar gyfer cydweithio
- Bont i'r byd
- Begwn ar gyfer goddefiant a rhyddid academaidd

Fel y disgrifir yn ddiweddarach yn y Datganiadau Ariannol, Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli busnes y Brifysgol, ac yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008, roedd aelodaeth y Bwrdd fel a ganlyn:

Mr A Wilkinson (Cadeirydd)
Mr M Knight (Dirprwy Gadeirydd)
Dr P Noyes (Is-Ganghellor)
Ms S Burton
Mr A Cargill (cynrychiolydd UM)
Ms N Channon
Mrs P E Davies
Mr O Evans (penodwyd Mai 2008)
Mr R Flatman
Mr S Howell (ymddiswyddodd Tachwedd 2007)
Syr H Jones
Mr G Keighley
Mr R Lawson (etholwyd Hydref 2007)
Dr N Lewis (enwebwyd gan y Bwrdd Academaidd Hydref 2007)
Mr G Moore (penodwyd Rhagfyr 2007)
Mr K Perkins (ail-etholwyd Hydref 2007)
Mrs G Sheddick (penodwyd Rhagfyr 2007)
Mrs H Taylor OBE
Y Gwir Barch. D Walker

2. Perfformiad Ariannol yn 2007/08

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau Prifysgol Cymru, Casnewydd ('y Brifysgol') a'i his-fentrau am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008. Mae gan y

Brifysgol un is-gwmni masnachu y manylir arno yn nodyn 14 i'r Datganiadau Ariannol.

O ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Addysg 1994 ac i'r lefel o reolaeth a ymarferir, mae canlyniadau Undeb y Myfyrwyr wedi cael eu cyfuno â chanlyniadau Grŵp y Brifysgol.

Crynhoir Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol y Brifysgol am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008 fel a ganlyn:

	2007/08	2006/07
	£000	£000
Incwm	42,746	39,279
Gwariant	42.154	38,801
Gwarged Gweithredol	592	478
Gwarged Cost Hanesyddol	1,116	1,004

Roedd gan y Brifysgol warged gweithredol o £0.6 miliwn, a gwarged cost hanesyddol o £1.1 filiwn. Roedd hyn yn ganlyniad derbyniol ac yn parhau'r duedd o sicrhau bod amrediad gwarged cost hanesyddol targed y Brifysgol rhwng 1% a 3% o incwm. Fe'i sicrhawyd ar ôl talu am gostau pensiwn Safon Adrodd Ariannol 17 (SAA 17) mwy na'r disgwyl o £1 filiwn (blwyddyn flaenorol £0.75 miliwn) a diddymu £0.2 filiwn arall o gostau cyn-adeiladu'n gysylltiedig â phrosiect campws canol y ddinas. Bu gostyngiad bach yng nghyfanswm yr incwm grant o CCAUC yn 2007/08, yn bennaf o ganlyniad i dderbyn grant yn y flwyddyn flaenorol o £1.9 miliwn o Ffrwd Incwm Atodol CCAUC, grant unwaith-yn-unig i wneud iawn am y ffaith nad oedd SAUau Cymru yn gallu codi ffioedd dysgu amrywiol yn ystod 2006/07. Cafodd hyn ei wrthbwyso'n llwyr gan y cynnydd mewn incwm o ffioedd dysgu yn deillio o allu'r Brifysgol i godi ffioedd "ychwanegol" ar fyfyrwyr amser-llawn o'r DU a mannau eraill yn yr UE ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn eu cyrsiau. Mae'r incwm ychwanegol o'r ffioedd wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu adnoddau ychwanegol mewn llawer maes yn y Brifysgol, gan gynnwys cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ffurf bwrsarïau a thaliadau o gronfa galedi. Er bod yr incwm ychwanegol yn dderbyniol iawn, nid elwodd y Brifysgol gymaint â'r mwyafrif o sefydliadau oherwydd ei chymysgedd annodweddiadol o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, gyda chyfran lawer uwch o fyfyrwyr rhan-amser na'r brifysgol "gyfartalog". Ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau, cyhoeddodd CCAUC y byddai grant ychwanegol yn cael ei ddyrannu at bwrpas cyllido myfyrwyr rhan-amser yn sgil adroddiad "Adolygiad Graham" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2006. Roedd yn rhaid gwario'r grant ar weithgaredd ychwanegol yn gysylltiedig â myfyrwyr rhan-amser, ac felly er ei fod yn galluogi'r Brifysgol i ymgymryd â gwaith a phrosiectau na fyddai wedi gallu eu fforddio fel arall, nid oedd yn darparu unrhyw gymorth ariannol tuag at gostau gwaelod cynyddol megis egni, pensiynau a'r dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer addysg uwch. Mewn rhai meysydd bu gostyngiadau bach heb eu cynllunio mewn incwm (megis grantiau a chontractau ymchwil, ac incwm o weithgareddau ffranseis tramor). Mewn meysydd eraill, megis incwm o fuddsoddiadau, roedd amgylchiadau o blaid y Brifysgol.

- **Y Sefyllfa Ariannol**

Dirywiodd sefyllfa asedau net y Brifysgol am y tro cyntaf mewn blynyddoedd lawer o ganlyniad i'r cynnydd yn y diffyg pensiwn fel y'i cyfrifwyd o dan SAA 17. Trafodir hyn yn llawnach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ond effaith y gwaethygiad o £8.6 miliwn o ganlyniad i hyn oedd dileu'r gwelliant net o £1.4 miliwn yn deillio o'r holl ffactorau eraill. Gwelwyd cynnydd o £3 miliwn yn ystod y flwyddyn yng ngwerth net asedau sefydlog ar bapur, a oedd i'w briodoli i brosiect Campws Canol y Ddinas, lle'r oedd y cyfuniad o

gael caniatâd cynllunio a llofnodi Cytundeb Datblygu gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn golygu y gellid symud ymlaen â cham dylunio manwl y prosiect, ynghyd â thynnu rhwystrau a pharatoi'r ddaear ar y safle ar lannau Afon Wysg yng nghanol Casnewydd. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu drwy dynnu i lawr fenthyciad tymor-hir newydd gan Lloyds TSB o gyfleuster benthyg y cytunwyd arno ar gyfer y prosiect yn 2006. Trafodwyd a chytunwyd ar gyfleuster benthyg pellach yn ystod 2007/08 i dalu am y costau o ymdrin â chyflwr y ddaear ar y safle, i dalu maes o law am y premiwm prydles i brynu budd prydles-hir yn y safle ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, ac i ddarparu cyllid pontio hyd nes i lifoedd cyllid eraill o'r cynllun busnes fod ar gael. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan oddeutu 60% o fenthyciadau tymor-hir y Brifysgol gyfraddau llog sefydlog, ac roedd 40% yn newidiol ac wedi'u cysylltu â chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Drwy gydol y flwyddyn, roedd y gyfradd sefydlog o 4.95% yn is na'r gyfradd newidiol, ond ers diwedd y flwyddyn mae'r sefyllfa wedi newid yn llwyr oherwydd y gostyngiadau mawr yn y gyfradd sylfaenol. Roedd y gyfradd LIBOR yn parhau'n uwch na'r gyfradd sylfaenol drwy gydol y flwyddyn a, gan ddefnyddio ei pholisi rheoli trysorlys a ddiwygiwyd ar 1 Awst 2007, cynyddodd y Brifysgol yr incwm mae'n gallu derbyn llog arno.

- **Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Yn ystod y flwyddyn fe barhaodd y Brifysgol i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol (DPAion) mewn perthynas â'i strategaethau, a chymerodd ran mewn prosiect yn y sector addysg uwch i ddatblygu arfer da yn y maes hwn. Cynyddodd cymhareb gyfredol y Brifysgol yn ystod y flwyddyn o 2.04 i 2.06 (DPA: cymhareb gyfredol i fod yn fwy nag 1), ac roedd ei gwarged cost hanesyddol yn 2.65% (DPA: gwarged cost hanesyddol i fod rhwng 1% a 3%). Gostyngodd asedau net am y tro cyntaf o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn y diffyg pensiwn (DPA: asedau net i fod yn fwy na'u gwerth yn y flwyddyn flaenorol). Bu cynnydd mewn incwm o ffynonellau heblaw am y cyngor cyllido (CCAUC) yn ystod 2007/08 (DPA: incwm o ffynonellau heblaw am CCAUC i fod yn fwy na'u gwerth yn y flwyddyn flaenorol), ond ystumiwyd hyn gan y ffaith i'r grant Ffrwd Incwm Atodol unwaith-yn-unig gael ei dalu y llynedd, ac i ffioedd "ychwanegol" gael eu cyflwyno. Gwelwyd gostyngiad bach mewn incwm o ffynonellau eraill, yn enwedig incwm o grantiau'r UE ac o drefniadau ffranseis tramor.

3. Recriwtio myfyrwyr

Roedd newyddion cymysg o ran nifer y myfyrwyr a gofrestrodd yn ystod 2007/08. Gwelwyd gostyngiad bach net yng nghyfanswm y myfyrwyr cofrestredig. Bu cynnydd o 4% mewn cofrestriadau newydd ar gyrsiau addysg uwch a addysgir yng Nghasnewydd, ac roedd cofrestriadau ar y nifer bach o gyrsiau addysg bellach tua'r un fath. Gan ddefnyddio cyfrifiadau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer niferoedd "cyfwerth ag amser-llawn" (CALl), cofnododd y Brifysgol gynnydd bach iawn. Gwelwyd gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr ar ein cyrsiau dysgu o bell ac ar gyrsiau a addysgir mewn partner golegau o dan drefniadau ffranseis yn y DU a thramor. Bu cynnydd o 99% i ychydig dros 99.1% yn nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd o ysgolion y wladwriaeth, a chynnydd o 7.9% i 8.1% yng nghyfran ein hisraddedigion a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl

4. Costau Pensiwn

Manylir ar gostau pensiwn yn nodyn 33, ac mae datgeliadau yn unol â Safon Adrodd Ariannol 17. Mae costau cyflog y Brifysgol yn cynnwys

taliadau pensiwn cyflogwyr i Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) o £1.90 miliwn o'u cymharu ag £1.47 miliwn y flwyddyn gynt. Gellir priodoli £0.42 filiwn o'r gost i "gost gwasanaeth yn y gorffennol" sydd wedi codi o ganlyniad i newid darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn, yn sgil cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, ynghyd â setiau atodol eraill o Reoliadau. Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r Rheoliadau'n cyflwyno Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol diwygiedig o 1 Ebrill 2008. At ei gilydd, nid yw'r newidiadau'n effeithio ond ar fuddion sy'n cronni a chyfraniadau aelodau o 1 Ebrill 2008 ymlaen, gyda'r canlyniad bod costau gwasanaeth cyfredol cyflogwyr yn newid o'r dyddiad hwn.

Serch hynny, mae'r darpariaethau newydd yn golygu bod rhai newidiadau mewn buddion marwolaeth mewn perthynas â gwasanaeth cronedig (er enghraifft, cyflwynwyd pensiynau ar gyfer partneriaid sy'n cyd-fyw a chynnydd yn y cyfnod "gwarant", sef y cyfnod mae pensiwn yn parhau ar ôl marwolaeth y pensiynwr). Mae'r newidiadau penodol hyn yn golygu bod cynnydd yng ngwerth rhwymedigaethau cronedig, sy'n ymddangos fel "cost gwasanaeth yn y gorffennol" yn y ffigurau SAA 17. Mae'r gost yn amrywio o gyflogwr i gyflogwr, ond yn nodweddiadol mae hi rhwng 0.5% ac 1% o werth rhwymedigaethau pensiwn SAA 17 y cyflogwr ar ddiwedd y flwyddyn, felly roedd cost Casnewydd ym mhen uchaf yr amrediad. Yn achos Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen), bu cynnydd o £8.2 filiwn yn y rhwymedigaethau net a gyfrifwyd o dan SAA 17 yn ystod y deuddeng mis diwethaf, sy'n golygu bod y diffyg yn y cynllun sydd i'w briodoli i'r Brifysgol wedi dyblu. Roedd y cynnydd yn ganlyniad i gyfuniad o gynnydd mewn rhwymedigaethau buddion (£6.6 miliwn) a gostyngiad yn asedau'r cynllun (£1.6 miliwn). Trafodwyd eisoes rai o'r rhesymau dros y cynnydd mewn rhwymedigaethau buddion. Dau ffactor pwysig arall oedd y newidiadau mewn tybiaethau disgwyliad oes ar gyfer pensiynwyr cyfredol 65 oed, a'r dewis o gyfradd ddisgowntio i gyfrifo gwerth presennol taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol. Er bod y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ychydig yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol (cynnydd o 5.8% i 5.9%), nid yw mor uchel ag y gallasai fod o dan y dulliau a ganiateir gan SAA 17. Byddai cyfradd ddisgowntio uwch wedi lleihau'r atebolrwydd a gyfrifwyd ar gyfer rhwymedigaethau buddion, ond nid yw'r Brifysgol wedi ceisio amnewid gwerth llai gochelgar yn y cyfrifiad. Er mwyn ymdrin â'r rhwymedigaethau hyn, cynyddodd cyfraniadau'r Brifysgol at y cynllun yn sylweddol ar 1 Ebrill 2008 o 13.6% i 15.8% (o'i gymharu â'r cynnydd cynlluniedig i 13.9% a ddisodlwyd yn dilyn yr ymarfer prisio teirblwydd). Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw'n glir a fydd y codiadau mewn cyfraniadau yn ddigonol i ymdrin â'r cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn a fydd yn codi o'r cytundeb cenedlaethol ar gyflogau a'r cytundeb fframwaith cyflog, y mae'r ddau ohonynt yn cynyddu costau cyflog gan fwy na chyfradd chwyddiant.

5. Gwariant Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Brifysgol £1.2 filiwn ar ychwanegiadau at adeiladau. Roedd prosiectau'n cynnwys dodrefnu llawr uchaf yr Adeilad Kegie newydd ar gampws Caerllion, a dechrau gwaith adnewyddu mawr ar un o'n darlithfeydd. Parhaodd y rhaglen o welliannau i'r ystâd yn unol â'r archwiliad anabledd, ynghyd â mân weithiau eraill wedi'u hanelu at wella profiad ein myfyrwyr. Parhaodd y gwaith cyn-adeiladu ar brosiect campws canol y ddinas ac erbyn diwedd y flwyddyn roedd y Brifysgol bron wedi cwblhau'r broses ddylunio manwl ar gyfer Cam E ac wedi

dechrau Camau F i H. Cafwyd caniatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn, felly cafodd gwariant ar waith dylunio a galluogi safle ei gyfalafu fel ased a oedd yn cael ei adeiladu. Gwariwyd £1 filiwn ar gyfarpar a ffitiadau ac ar weithredu ein strategaeth rheoli carbon.

6. Llifoedd Arian

Y mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu sy'n parhau oedd £4.6 filiwn, £2.2 filiwn yn fwy na'r llynedd. Bu cynnydd o £0.1 filiwn mewn dyledwyr a rhagdaliadau, tra bu cynnydd o £1.5 miliwn mewn credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn. Bu cynnydd o £3.1 filiwn mewn gweddillion adnau tymor-byr. Cafodd swm o £3.4 miliwn ei dynnu i lawr o fenthyciad tymor-hir newydd i ariannu prosiect campws canol y ddinas, fel y nodwyd ynghynt. Ar ôl caniatáu ar gyfer gwariant cyfalaf o £5.6 miliwn, wedi'i wrthbwyso gan grantiau ac adenillion ar fuddsoddiadau o £0.8 miliwn, bu cynnydd o £0.1 filiwn mewn gweddillion arian net. Os cymerir arian parod, adneuon a benthyciadau gyda'i gilydd mae gan y Brifysgol gyllid net, sydd bellach yn £6.1 filiwn ar ôl gostyngiad o £0.2 filiwn.

7. Talu Credydwyr

Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i dalu cyflenwyr yn unol â'r telerau talu y cytunwyd arnynt. Ond gan ei bod hi'n bolisi gan y Brifysgol i gael y telerau mwyaf ffafriol ar gyfer ei holl drafodion, nid oes unrhyw delerau unffurf ar gyfer talu credydwyr. Mae'r Brifysgol yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu cyflenwyr bach, ac adolygir y telerau talu yn ystod 2008/09.

8. Amrywiaeth mewn Cyflogaeth

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth a sicrhau cyfle cyfartal i staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Mae gennym amryw o bolisïau a chynlluniau yn eu lle i hybu hyn.

Mae gan y Brifysgol Bolisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sy'n cynnwys targedau sy'n cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd. Cysylltir y targedau â meysydd perthnasol y Cynllun Strategol. Mae Adrannau ac Ysgolion wedi parhau i roi sylw i Amrywiaeth ac mae Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol bellach yn eu lle mewn llawer maes ac fe'u hadolygir yn rheolaidd.

Ers sicrhau symbol 'Two Ticks' y cynllun Positif Ynghylch Anabledd ym mis Ionawr 2004, mae'r Brifysgol wedi parhau â'r gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal ei hymrwymiadau (h.y. y Cynllun Cyfweliadau Sicr, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, cadw staff sy'n dod yn anabl yn ystod cyflogaeth, y broses adolygu flynyddol).

Mae'r gwaith ym maes Amrywiaeth a Chydraddoldeb yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar faterion anabledd, oedran a rhyw, er mwyn rhagweld deddfwriaeth sydd ar y gweill.

9. Cyfraniad y Staff

Mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais mawr ar gyfraniad ei staff ac ar gyfathrebu da gyda hwy.

Anogir y staff i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol ar lefel y Brifysgol a'r adran, weithiau drwy fod yn aelodau o Bwyllgorau ffurfiol (e.e. y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor Datblygu a Chynllunio Academaidd, a'r Panel Amrywiaeth). Hefyd gall staff a etholir adlewyrchu barn staff academaidd a staff cymorth yng nghyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr.

10. Gobeithion at y Dyfodol

Mae'r Brifysgol yn dymuno tyfu ymhellach, ac

mae'n gweithio'n galed i ddatblygu ei threfniadau cydweithiol â llawer o randdeiliaid. Ystyrir bod adfywiad a ffyniant economaidd Casnewydd a de-ddwyrain Cymru yn allweddol i lwyddiant y Brifysgol yn y dyfodol. Gan weithio gyda chyflogwyr, y llywodraeth a sefydliadau addysg uwch eraill, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i fod o'r budd mwyaf posibl i gymdeithas drwy addysgu a dysgu arloesol, ymchwil a menter. Bydd blwyddyn ariannol 2008/09 yn gweld dechrau dwy gyd-fenter bwysig gyda phartneriaid o'r sector preifat. Y gyntaf o'r rhain yw agor Canolfan Astudio Ryngwladol Cymru ar gampws Caerllion, mewn partneriaeth â Study Group International. O dan y prosiect hwn, addysgir sgiliau Saesneg i fyfyrwyr a recriwtir o bedwar ban byd, i'w paratoi ar gyfer eu hastudiaethau addysg uwch mewn sefydliadau ledled Cymru. Mae'r ail brosiect yn cynnwys agor y llety myfyrwyr "Opal One" newydd yng nghanol Casnewydd. Bydd yr adeilad yn cael ei redeg gan grŵp eiddo Opal sy'n arbenigo mewn darparu llety myfyrwyr, a bydd yn rhan o'n prosiect campws canol y ddinas. Mae'r gwaith adeiladu ar weddill prosiect campws canol y ddinas ar fin dechrau, ac mae'r risgiau a allai effeithio ar lwyddiant prosiect cyfalaf mwyaf erioed y Brifysgol wedi cael eu lleddfu hyd y bo modd. Bydd y contract dylunio ac adeiladu'n cynnwys pris mwyaf gwarantedig a bydd yn cael ei oruchwylio gan reolwyr prosiect allanol. Cyfyngwyd ar effeithiau newidiadau mewn cyfraddau llog yn y dyfodol drwy'r cytundebau a wnaed gyda banc Lloyds TSB. Mae'r pecyn ariannu y cytunwyd arno gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan y Cytundeb Datblygu yn gosod rhwymedigaethau yn ogystal â rhoi hawliau, ond cânt eu cyflawni yn yr un ysbryd o bartneriaeth â'r un a arweiniodd at eu creu. Bydd amseriad gwerthu asedau'n cael ei gynllunio i sicrhau bod eu cyfraniad mor fawr â phosibl. Fel pob SAU arall, mae Casnewydd yn wynebu pwysau megis costau cyflog a'r rhwymedigaethau pensiwn cysylltiedig, ac o dro i dro, bydd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog yn gosod her, megis y cynnydd diweddar mewn costau tanwydd. Mae ein cymysgedd annodweddiadol o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, a'r proffil oedran annodweddiadol cysylltiedig, yn ei gwneud hi'n anodd asesu effaith debygol newidiadau demograffig neu newidiadau mewn cyllid myfyrwyr. Mae'r tan-gyllido cymharol yn achos myfyrwyr rhan-amser yn parhau'n her i Gasnewydd.

11. Casgliad

Llwyddodd y Brifysgol i gyrraedd ei tharged o ran gwarged a gwnaeth gryn gynnydd gyda'i phrosiect campws canol y ddinas. Mae'r Brifysgol yn parhau i gyflawni ei chenhadaeth drwy weithredu ei strategaethau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Bydd yn parhau i fynd i'r afael â phob her ac i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi yn erbyn cefndir o reolaeth fewnol a risg gadarn.

Mr A Wilkinson
Cadeirydd

RHEOLAETH GORFFORAETHOL

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn croesawu adroddiad y Pwyllgor ar Agweddau Ariannol Rheolaeth Gorfforaethol ("Pwyllgor Cadbury"), a Chod Ymarfer Gorau Pwyllgor Cadbury. Er nad yw'r Brifysgol, gan ei bod yn gorfforaeth â statws elusennol a ffurfiwyd drwy Ddeddf Seneddol, yn cael ei rheoleiddio gan Gyfnewidfa Stoc Llundain, mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn fodlon bod y Brifysgol a'r Grŵp wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn â darpariaethau'r Cod, ar wahân i'r rheiny'n ymwneud â chontractau gwasanaeth a dewisiadau stoc cyfarwyddwyr na allant gael eu cymhwyso at Brifysgolion.

- **Crynodeb o Strwythur Rheolaeth Gorfforaethol y Brifysgol**

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn cynnwys unigolion lleyg ac academaidd a benodwyd o dan Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth y Brifysgol; mae'r mwyafrif ohonynt yn anweithredol. Mae rolau Cadeirydd a Dirprwy Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi'u gwahanu oddi wrth rôl Is-Ganghellor y Brifysgol. Mae'r materion a neilltuir yn arbennig i Fwrdd y Llywodraethwyr wneud penderfyniadau arnynt wedi'u nodi yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth y Brifysgol, yn ôl defod ac o dan y Memorandwm Ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC"). Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am gyfeiriad strategol y Brifysgol a'r Grŵp, am gymeradwyo datblygiadau mawr ac am dderbyn adroddiadau rheolaidd gan Swyddogion Gweithredol ar weithrediad ei fusnes o ddydd i ddydd ac ar ei is-gwmnïau ac Undeb y Myfyrwyr.

Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn ac mae ganddo sawl Pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Cyllid, Polisi Cyflogaeth a Materion Cyffredinol, Pwyllgor Tâl a Phwyllgor Archwilio. Mae'r holl Bwyllgorau hyn wedi'u sefydlu'n ffurfiol gyda chylch gorchwyl ac mae'r rhan fwyaf o'u haelodau'n aelodau lleyg o Fwrdd y Llywodraethwyr, y mae un ohonynt yn Gadeirydd.

Gwaith y Pwyllgor Cyllid, Polisi Cyflogaeth a Materion Cyffredinol yw rhoi argymhellion i Fwrdd y Llywodraethwyr ynghylch cyllidebau blynyddol y Brifysgol a monitro perfformiad mewn perthynas â chyllidebau a gymeradwywyd.

Gwaith y Pwyllgor Tâl yw pennu tâl blynyddol staff uwch.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bob chwarter fel rheol. Gwahoddir yr Archwilwyr Allanol a'r Archwilwyr Mewnol i fynychu'r cyfarfodydd i drafod eu casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol a'r Grŵp, ynghyd ag ymateb a chynlluniau gweithredu'r rheolwyr. Bydd hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan CCAUC fel yr effeithiant ar fusnes y Brifysgol a'r Grŵp ac yn monitro cydymffurfiad â'r gofynion rheoleiddio. Bydd yn adolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol a'r Grŵp ynghyd â'r polisïau cyfrifydda.

Datblygwyd Proffil Risg Corfforaethol cynhwysfawr er mwyn helpu Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Rheolwyr Gweithredol gyda gweithrediad y Brifysgol, ei his-gwmnïau ac Undeb y Myfyrwyr. Yn unol â pholisi risg y Brifysgol, aseswyd y risgiau ar sail eu tebygolrwydd ac effaith er mwyn gosod y lefel briodol o reolaeth ar gyfer pob un ac fel bod modd eu blaenoriaethu. Mae'r Proffil Risg Corfforaethol yn cynnwys y system gyfan o ddulliau rheoli, ariannol ac fel arall, a sefydlwyd i roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediadau, rheolaeth ariannol fewnol, a chydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau. Mae'r Brifysgol yn gwneud ei gorau bob amser i wella effeithiolrwydd ac

effeithlonrwydd ei gweithrediadau ac mae hyn yn waith parhaus.

- **Busnes Hyfyw**

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn fodlon bod gan y Brifysgol a'r Grŵp adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld: am y rheswm hwn, parheir i ddefnyddio'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

- **Rheolaeth Fewnol**

Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol sy'n gyfrifol am system rheolaeth ariannol fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Lluniwyd y system i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes ac ni all roi ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt rhag camddatganiadau neu golledion o bwys.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr o'r farn bod yna broses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli risgiau pwysig y Brifysgol, y bu yn ei lle ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a chyfrifon blynyddol, ei bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, a'i bod yn cydymffurfio â'r arweiniad rheolaeth fewnol i gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfunol fel y bo'n briodol i addysg uwch.

Dirprwywyd cyfrifoldeb dros oruchwylio'r broses rheoli risg i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Bydd Bwrdd Rheoli'r Brifysgol yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r gofrestr risg gorfforaethol, ac adolygiad chwarterol o'r risgiau allweddol. Caiff risgiau o bwys o dan y lefel hon eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli i'w hystyried. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar reoli risg.

Mae risgiau wedi cael eu blaenoriaethu yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith.

Cynhwysir rheoli risg yn yr ymarfer cynllunio strategol blynyddol.

Ym mhob cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr derbynnir cofnodion y cyfarfod diweddaraf o'r Pwyllgor Archwilio, ac adroddiad gan y Cadeirydd.

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn ôl safonau a ddiffinnir yng Nghod Ymarfer Archwilio CCAUC, yn dylanwadu ar asesiad Bwrdd y Llywodraethwyr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Seilir y rhaglen archwilio mewnol ar y gofrestr risg gorfforaethol a bydd y Pwyllgor Archwilio a Bwrdd y Llywodraethwyr yn cytuno arni. Bydd yr archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd agweddau penodol ar y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Mae gwaith y rheolwyr gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, hefyd yn dylanwadu ar asesiad Bwrdd y Llywodraethwyr o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol

Hwylusir rheolaeth ariannol fewnol gan ofynion wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant sydd wedi'u cynnwys o fewn rheoliadau ariannol cynhwysfawr a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

Drwy orchymyn y Bwrdd

Dr P Noyes
Is-Ganghellor

CYFRIFOLDEBAU BWRDD LLYWODRAETHWYR PRIFYSGOL CYMRU, CASNEWYDD

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gyfrifol am weinyddu a rheoli busnes y Brifysgol a'i his-gwmnïau ac mae gofyn iddo gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac sy'n galluogi'r Bwrdd i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Arfer Cymeradwy, a safonau cyfrifydda perthnasol eraill. Yn ogystal, o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, mae gofyn i Fwrdd y Llywodraethwyr, drwy ei ddeiliad swydd dynodedig, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Brifysgol a'r Grŵp ac o'r gwarged neu ddiffyg a llifoedd arian am y flwyddyn honno.

Wrth beri i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi, rhaid i Fwrdd y Llywodraethwyr sicrhau bod:

- polisïau cyfrifydda addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- barnau ac amcangyfrifon yn cael eu gwneud sy'n rhesymol a doeth;
- safonau cyfrifydda cymwys wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw oni bo'n amhriodol tybio y bydd y Brifysgol a'r Grŵp yn parhau i weithredu.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau bod arian Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas y cafodd ei roi yn unig ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaethol priodol yn eu lle i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'r Grŵp ac atal a chanfod twyll;
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol a'r Grŵp yn cael eu rheoli mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Cyfrifoldeb Bwrdd y Llywodraethwyr yw cynnal a diogelu gwefan y Brifysgol. Nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r materion hyn ac, felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros newidiadau a all fod wedi cael eu gwneud i'r Datganiadau Ariannol ers iddynt gael eu rhoi ar y wefan.

Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Drwy orchymyn y Bwrdd

Dr P Noyes
Is-Ganghellor

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I FWRDD LLYWODRAETHWYR PRIFYSGOL CYMRU, CASNEWYDD

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol ('y datganiadau ariannol') Prifysgol Cymru, Casnewydd am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol, y Mantolenni, y Datganiad Llif Arian Cyfunol, y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisio rhai asedau sefydlog) ac yn unol â'r polisïau cyfrifydda a nodir yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifydda.

Priod Gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Archwilwyr

Mae cyfrifoldeb Bwrdd y Llywodraethwyr dros baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Arfer Cymeradwy – Cyfrifydda ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, a Chyfraith a Safonau Cyfrifydda (Arferion Cyfrifydda a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) perthnasol y Deyrnas Unedig, yn cael ei egluro yn y Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y farn, wedi cael ei baratoi ar gyfer Bwrdd Llywodraethwyr y sefydliad yn unig yn unol ag Erthyglau Llywodraeth y sefydliad ac adran 124B o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw bwrpas arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y gall ddod i'w ddwylo ac eithrio lle y cytunir yn benodol ar hyn drwy gael ein caniatâd ymlaen llaw mewn ysgrifen.

Rydym yn adrodd i chi ein barn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac â'r Datganiad o Arfer Cymeradwy – Cyfrifydda ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Rydym hefyd yn adrodd ein barn, ym mhob ffordd bwysig, ar p'un a yw'r gwariant o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o bob ffynhonnell a weinyddir gan y sefydliad at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny, ac, os yn briodol, wedi cael ei reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac a yw incwm, yn ein barn ni, wedi cael ei gymhwyso ym mhob ffordd bwysig yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rydym hefyd yn adrodd i chi os nad yw'r sefydliad, yn ein barn ni, wedi cadw cyfrifon priodol, os nad yw'r cyfrifon yn gyson â'r datganiadau ariannol, neu os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Darllenwn y wybodaeth arall yn y Datganiadau Ariannol ac ystyriwn y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os deuwn i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys â'r datganiadau ariannol. Nid yw'r wybodaeth arall yn cynnwys ond Adroddiad Bwrdd y Llywodraethwyr a'r datganiad ar Reolaeth Gorfforaethol.

Rydym hefyd yn adolygu'r datganiad o reolaeth fewnol a gynhwysir fel rhan o'r datganiad ar Reolaeth Gorfforaethol a rhoddwn sylwadau os

yw'r datganiad yn anghyson â'n gwybodaeth am y sefydliad a'r grŵp. Nid oes gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad ar reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a dulliau rheoli, nac i roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheolaeth gorfforaethol y sefydliad na'i weithdrefnau risg a rheoli. Ystyriwn y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os deuwn i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys â'r datganiadau ariannol. Nid ydym yn gyfrifol am unrhyw wybodaeth arall.

Sail ein barn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r Cod Ymarfer ar Archwilio a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan Fwrdd y Llywodraethwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac o a yw'r polisïau cyfrifydda yn briodol i amgylchiadau'r grŵp, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Rydym wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn, rydym hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn ein barn ni:

i. mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr busnes y sefydliad a'r grŵp ar 31 Gorffennaf 2008, ac o warged incwm dros wariant a llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Arfer Cymeradwy – Cyfrifydda ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, ac Arferion Cyfrifydda a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

ii. ym mhob ffordd bwysig, mae gwariant o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o bob ffynhonnell a weinyddir gan y sefydliad at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny, ac, os yn briodol, wedi cael ei reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;

iii. ym mhob ffordd bwysig, mae incwm wedi cael ei gymhwyso yn unol â statudau'r sefydliad a lle y bo'n briodol yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd
18 Rhagfyr 2008

DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDA

1. SAIL PARATOI

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddwyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Arfer Cymeradwy – Cyfrifydda ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

1.1 SAIL CYFRIFYDDA

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu ar gyfer rhai prisiadau o asedau sefydlog.

1.2 SAIL CYFUNO

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cyfuno datganiadau ariannol y Brifysgol, ei holl is-gwmnïau ac Undeb y Myfyrwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2008. Mabwysiadwyd polisïau cyfrifydda unffurf drwy'r Grŵp.

Mae canlyniadau Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cyfuno â chanlyniadau Grŵp y Brifysgol o ganlyniad i'r lefel o reolaeth a ymarferir.

2. CYDNABOD INCWM

Mae incwm o waddolion a rhoddion penodol, grantiau ymchwil, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gynnwys i'r graddau yr aed i wariant yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau cysylltiedig tuag at orbenion.

Mae'r holl incwm o adneuon tymor-byr a buddsoddi asedau gwaddol yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail dderbyniadwy.

Mae grantiau rheolaidd gan y Cynghorau Cyllido yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y gellir eu derbyn.

Mae grantiau anrheolaidd gan y Cynghorau Cyllido neu gyrff eraill a dderbynnir mewn perthynas â phrynu neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u hamorteiddio yn unol â dibrisiad yn ystod oes yr ased.

3. CYNLLUNIAU PENSIWN

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (CBGF) a Chynllun Pensiwn yr Athrawon (CPA). Cynlluniau buddion diffiniedig wedi'u cyllido yw'r cynlluniau hyn ac maent hwy wedi'u contractio allan o Gynllun Pensiwn Cysylltiedig ag Enillion y Wladwriaeth. Caiff CBGF ei phrisio bob tair blynedd gan actiwari â chymhwyster proffesiynol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, ac mae cyfradd y cyfraniad sy'n daladwy yn cael ei phennu gan yr Awdurdod Gweinyddu ar sail cyngor yr actiwari. Mae CPA yn cael ei phrisio gan actiwari bob pum mlynedd gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth, gan ddefnyddio'r dull oedran ymaelodi. Mae cyfradd y cyfraniad sy'n daladwy yn cael ei phennu gan Asiantaeth Pensiwn yr Athrawon ar sail cyngor yr actiwari.

Mewn perthynas â CBGF, mae'r ased neu rwymedigaeth net a gydnabyddir yn y fantolen yn cynrychioli gwerth presennol y rhwymedigaethau diffiniedig o ran buddion ar ôl tynnu gwerth teg asedau'r cynllun. Defnyddir cyfraddau marchnad terfynol i fesur asedau'r cynllun ac mae rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel o gyfnodau cyfwerth. Mae'r cynnydd yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth y disgwylir iddo godi o wasanaeth staff yn ystod y flwyddyn yn cael ei godi ar gostau staff. Codir am yr adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun a'r cynnydd yn ystod y flwyddyn yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n codi o dreigl amser fel traul llog. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig.

Nid yw'n bosibl dweud beth yw cyfran y Brifysgol o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y CPA. Felly, fel y caniateir gan SAA 17, cyfrifir am y CPA fel cynllun cyfrannu diffiniedig lle y mae'r cyfraniadau sy'n cronni yn cael eu codi ar gostau staff yn ystod y flwyddyn.

4. ASEDAU ANNIRIAETHOL

4.1 Ewyllys Da

